



Department
for Environment
Food & Rural Affairs

Ansawdd Aer: Ymgynghoriad ar y Rhaglen Rheoli Llygredd Aer Genedlaethol ddrafft

Gorffennaf 2022



Scottish Government
Riaghaltas na h-Alba
gov.scot



Department of
Agriculture, Environment
and Rural Affairs
www.daera-ni.gov.uk



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ni yw Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Ni sy'n gyfrifol am wella a diogelu'r amgylchedd, tyfu'r economi gwyrdd, cynnal cymunedau gwledig ffyniannus a chefnogi'n diwydiannau bwyd, ffermio a physgota o'r radd flaenaf.

Rydym yn gweithio'n agos gyda 33 o asiantaethau a chyrrff hyd braich ar ein huchelgais i wneud ein haer yn burach, ein dŵr yn lanach, ein tir yn wyrddach a'n bwyd yn fwy cynaliadwy. Ein cenhadaeth yw adfer a gwella'r amgylchedd i'r genhedlaeth nesaf, a'i adael mewn cyflwr gwell nag y cawson ni'r amgylchedd ynddo.



© Hawlfraint y Goron 2022

Mae'r wybodaeth hon wedi'i thrwyddedu o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylai unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn gael eu hanfon aton ni yn

Consultation Coordinator, Defra

2nd Floor, Foss House, Kings Pool,

1-2 Peasholme Green, York, YO1 7PX

neu drwy'r ebost: consultation.coordinator@defra.gov.uk

www.gov.uk/defra

Cynnwys

1. Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn	4
1.1 Trosolwg	4
1.2 Cyd-destun	5
1.3 Trosolwg o NAPCP y Deyrnas Unedig	6
1.4 Ffactorau ychwanegol NAPCP y Deyrnas Unedig	8
2. Nod yr ymgynghoriad	10
3. Gwybodaeth gyffredinol a sut i ymateb	11
4. Cwestiynau ymgynghori	12
4.1 Cwestiynau cyffredinol.....	12
4.2 Cwestiynau polisi.....	13
4.3 Cwestiynau technegol	15
Ar ddiwedd yr ymgynghoriad	16

1. Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

1.1 Trosolwg

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig, ynghyd a Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon (y Gweinyddiaethau Datganoledig) wedi ymrwymo'n gryf i wella ansawdd aer a sicrhau'r manteision cysylltiedig ar gyfer iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd naturiol. Nid yw llygredd aer yn cydnabod ffiniau cenedlaethol na rhyngwladol. Felly, gall allyriadau mewn un wlad gael effaith ar ansawdd aer ledled gweddill y Deyrnas Unedig. I gydnabod hyn, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn cydweithio i ddeall ar lefel y Deyrnas Unedig pa gamau y mae angen eu cymryd er mwyn gwella ansawdd aer ac ansawdd bywyd ar gyfer y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol.

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn cynnal ymgynghoriad ar ddrafft diwygiedig o'r Rhaglen Rheoli Llygredd Aer Genedlaethol (NAPCP). Cafodd yr NAPCP ei gyhoeddi gyntaf yn 2019, ac mae'n nodi polisiau a mesurau, yn ogystal â dadansoddiad technegol ategol, y gall fod eu hangen er mwyn cyfyngu allyriadau yn unol â'r Ymrwymadau Lleihau Allyriadau (ERCs) a osodwyd o dan Reoliadau Uchafsymiau Allyriadau Cenedlaethol 2018 ("[yr NECR](#)").

Nododd yr NECR ymrwymadau lleihau allyriadau (ERCs) sy'n gyfreithiol gyfrwymol ar gyfer pump o lygryddion aer: deunydd gronynnol mân ($PM_{2.5}$), ocsidau sylffwr (SO_x), ocsidau nitrogen (NO_x), amonia (NH_3) a chyfansoddion organig anweddol nad ydynt yn fethan ('NMVOCs') ar gyfer 2020 a 2030. Ym mis Mawrth 2022, cyhoeddodd y Deyrnas Unedig ei rhestr mewn perthynas ag ymrwymadau lleihau allyriadau 2020. Dangosodd y rhestr fod y Deyrnas Unedig wedi bodloni'r uchafsymiau domestig a rhyngwladol yn 2020 ar gyfer allyriadau NMVOCs, $PM_{2.5}$, NO_x ac SO_2 . Nid oedd y Deyrnas Unedig wedi cadw at uchafswm 2020 ar gyfer allyriadau amonia (NH_3). Ond, fel y caniateir o dan yr NECR, mae'r Deyrnas Unedig wedi paratoi rhestr allyriadau ddiwygiedig ar gyfer 2020 mewn perthynas ag NH_3 er mwyn cymryd i ystyriaeth welliannau yn y fethodoleg ar gyfer cyfrifo allyriadau o weddillion treuliad heblaw tail. Mae'r Deyrnas Unedig wedi cyflwyno'r rhestr ddiwygiedig er mwyn i arbenigwyr Comisiwn Economaidd Ewropeaidd y Cenedloedd Unedig (UNECE) graffu arni. Bydd canlyniad yr adolygiad yn hysbys erbyn mis Medi 2022.

Dangosodd yr amcanestyniadau o allyriadau'r Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021 fod yna risg y gallai'r Deyrnas Unedig dorri ei hymrwymadau i leihau allyriadau ar gyfer $PM_{2.5}$ ac NH_3 rhwng 2020-29 a'i hymrwymadau i leihau allyriadau $PM_{2.5}$, NH_3 , RhS_2 ac NO_x erbyn 2030. Mae'r amcanestyniadau diwygiedig ar gyfer allyriadau a gyhoeddir ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn yn dangos nad yw'r Deyrnas Unedig bellach yn wynebu risg o dorri ei hymrwymiad i leihau allyriadau $PM_{2.5}$ ar gyfer 2020-29. Oherwydd amcanestyniadau 2021, o dan y Rheoliadau mae'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol adolygu Rhaglen Genedlaethol Rheoli Llygredd Aer y Deyrnas Unedig erbyn 15 Medi 2022. Mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn nodi bod rhaid ymgynghori â'r

cyhoedd ynglŷn ag unrhyw ddiwygiad arwyddocaol ar yr NAPCP. Bydd yr ymgynghoriad hwn ar yr NAPCP drafft yn rhedeg am 6 wythnos o 25 Gorffennaf ac yn cau ar 4 Medi.

Er bod ansawdd aer yn fater sydd wedi'i ddatganoli, mae'r NECR yn gymwys ledled y Deyrnas Unedig ac felly mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn cydweithio i ddatblygu mesurau i wella ansawdd aer a lleihau allyriadau ledled y Deyrnas Unedig.

1.2 Cyd-destun

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn canolbwyntio'u gweithgarwch ar leihau allyriadau a chryodiadau'r pum llygrydd allweddol a grybwyllwyd uchod. Allyriadau yw cyfanswm y deunydd llygrol sy'n cael ei ollwng i'r atmosffer, tra bod cryodiadau'n cyfeirio at lefel y deunydd llygrol yn yr aer amgylchynol. Nodir rheoliadau ynglŷn â chryodiadau yn y deddfwriaeth genedlaethol berthnasol – [Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer 2010](#), [Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer \(Cymru\) 2010](#), [Safonau Ansawdd Aer \(Gogledd Iwerddon\) 2010](#) a [Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer \(yr Alban\) 2010](#).

Yn ychwanegol, mae Lloegr wrthi'n gosod targedau newydd ar gyfer crynodiad PM_{2.5} o dan Ddeddf yr Amgylchedd 2021. Mae Deddf yr Amgylchedd 2021 yn sefydlu dyletswydd i osod targed crynodiad ar gyfer PM_{2.5} ochr yn ochr ag o leiaf un targed hirdymor arall ar ansawdd aer fel rhan o'r fframwaith ehangach ar gyfer gosod targedau amgylcheddol sy'n gyfreithiol rwymol. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y targedau newydd rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2022 a bydd rheoliadau drafft yn dilyn yn sgil ystyriaeth briodol i'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

Mae'r NAPCP yn canolbwyntio ar allyriadau. Cafodd y Gyfarwyddeb Uchafswm Allyriadau Cenedlaethol (NEC) (2016/2284/EU) ei thrawsosod yng nghyfraith y Deyrnas Unedig gan yr NECR pan oedd y Deyrnas Unedig yn aelod-wladwriaeth o'r UE. Mae'r Rheoliadau'n gofyn am ostyngiadau cyffredinol mewn allyriadau anthropogenig pump o lygryddion aer yn y Deyrnas Unedig. Mae angen bodloni'r ERCs cenedlaethol hyn mewn dau gam, o 2020 i 2029 yn unol ag ymrwymïadau a osodwyd gan Brotocol diwygiedig Gothenburg o dan y Confensiwn Rhyngwladol ar Lygredd Aer Trawsffiniol (CLRTAP) y mae'r Deyrnas Unedig yn barti iddo, gyda lefelau llymach i'w bodloni o 2030 ymlaen. Dim ond yng Nghyfarwyddeb yr UE a Rheoliadau'r Deyrnas Unedig y pennir targedau 2030 ac nid oes ganddynt unrhyw sail yn y CLRTAP. Mae'r Rheoliadau hefyd yn cynnwys gofyniad nad yw cyfanswm allyriadau anthropogenig pob un o'r llygryddion perthnasol yn mynd yn uwch na'r llwybr lleihau llinellol oni bai bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn penderfynu bod angen gwneud hynny am ei fod yn fwy effeithlon yn economaidd neu'n dechnegol.

Yn ychwanegol at nodi'r ERCs, gofynnodd y Gyfarwyddeb i bob aelod-wladwriaeth lunio, mabwysiadu a gweithredu Rhaglen Rheoli Llygredd Aer Genedlaethol (NAPCP) gyda'r nod o gydymffurfio â'r ymrwymïadau lleihau allyriadau. Cafodd yr ymrwymiad ei drawsosod yng nghyfraith y Deyrnas Unedig yn Rhan 4 o'r Rheoliadau Uchafswm Allyriadau Cenedlaethol. Nodir fformat a chynnwys yr NAPCP ym Mhenderfyniad Gweithredu'r Comisiwn 2018/1522 sydd, yn rhinwedd Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, yn rhan o gyfraith yr UE sydd wedi'i dargadw yn y Deyrnas Unedig. O

dan Fframwaith Ansawdd Aer y Deyrnas Unedig, byddwn yn adolygu nodau a gofynion yr NAPCP i ystyried y ffordd orau o gyflawni uchelgais y Deyrnas Unedig ar gyfer aer glân. Hoffem sicrhau ein bod yn cymryd y camau mwyaf effeithiol ac uchelgeisiol ar draws holl weinyddiaethau'r Deyrnas Unedig i fynd i'r afael â llygredd aer. O ran Lloegr, gallai mwy o gydlynu â'r rhwymedigaethau cenedlaethol newydd ynglŷn ag adolygu a monitro, fel y rhai a geir yn Neddf yr Amgylchedd, ein galluogi i sbarduno camau i fynd i'r afael â llygredd aer mewn ffordd fwy integredig a strategol ac osgoi dyblygu yn y rhwymedigaethau ar gyfer adrodd ac adolygu.

1.3 Trosolwg o NAPCP y Deyrnas Unedig

Mae'r NAPCP yn ddogfen dechnegol i raddau helaeth a honno'n asesu'r potensial i leihau allyriadau sydd gan ystod o bolisiâu a mesurau a allai gael eu defnyddio i gyfyngu allyriadau gyda'r nod o gydymffurfio â'r ERCs.

Heb unrhyw bolisiâu a mesurau ychwanegol, mae amcanestyniadau diwygiedig 2022 (a gyhoeddir ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn) yn dangos:

- bod y Deyrnas Unedig, yn 2025, yn debygol o gydymffurfio â NECR 2020-29 ar gyfer NO_x, SO_x, NMVOCs, a PM_{2.5} ond bod yna risg y gallai'r Deyrnas Unedig fethu'r ERCs ar gyfer NH₃.
- bod y Deyrnas Unedig, ar gyfer 2030, ar y trywydd iawn i gyrraedd targedau NECR 2030 ar gyfer NMVOCs ond bod yna risg y gallai'r Deyrnas Unedig fethu'r ERCs ar gyfer NO_x, SO_x, NH₃ a PM_{2.5}.

Yn yr NAPCP drafft diwygiedig, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r Gweinyddiaethau Datganoledig wedi amlinellu'r polisiâu a'r mesurau a gaiff eu hystyried ymhellach er mwyn lleihau allyriadau yn unol â'r ymrwymadau cenedlaethol i leihau allyriadau a'r rhai na fyddant yn cael eu hystyried ymhellach ar hyn o bryd.

Nid yw'r polisiâu a'r mesurau a fydd yn cael eu hystyried ymhellach yn bolisi cadarn gan y Llywodraeth. Maen nhw'n dal yn mynd drwy ragor o brosesau dadansoddi, datblygu, ymgynghori a phenderfynu yn y llywodraeth.

Mae'r polisiâu a'r mesurau a gaiff eu hystyried ymhellach yn dod o fewn 7 pecyn y manylir arny'n nhw yn adran 2.6.1. Mae'r pecynnau'n cynnwys:

1. **Tanwyddau solet** - mae llosgi domestig yn cyfrannu'n helaeth at allyriadau PM_{2.5}. Gallai'r pecyn hwn gynnwys polisiâu a mesurau ynglŷn â'r mathau o danwydd solet sy'n cael eu llosgi mewn offer hylosgi domestig.
2. **Cyfathrebu ar losgi** – mae'r pecyn hwn yn canolbwyntio ar addysgu defnyddwyr am beryglon llosgi domestig a sut i losgi yn y ffordd lanaf posibl.
3. **Stofiau glanach** - gallai'r polisiâu a'r mesurau hyn helpu'r newid tuag at stofiau glanach ar yr aelwyd, gan wella ansawdd aer dan do ac yn yr awyr agored.
4. **Amaethyddiaeth** - gallai'r pecyn hwn leihau allyriadau amonia o amaethyddiaeth, sef y cyfrannwr mwyaf at allyriadau NH₃ y Deyrnas Unedig.

5. **Diwydiant** – mae'r pecyn diwydiant yn nodi sut y bydd diwydiant a rheoleiddwyr yn cydweithio i godi safonau a lleihau allyriadau.
6. **Trafnidiaeth ffyrdd (datgarboneiddio)** – mae'r pecyn hwn yn ystyried gwahanol bolisiau trafndiaeth ffyrdd, a nodir yn y Strategaeth Sero Net, sy'n effeithio ar ansawdd aer.
7. **Sero Net (Pŵer, Diwydiant a Phreswyl)** - mae polisïau a chynigion ar gyfer datgarboneiddio pob sector o economi'r Deyrnas Unedig hefyd yn cael effaith ar ansawdd aer ac maen nhw wedi'u cymryd i ystyriaeth wrth lunio'r NAPCP.

Fe allai'r polisïau a'r mesurau sydd wedi'u mabwysiadu ac wedi'u cynnwys ar hyn o bryd yn y rhestr allyriadau a'r rhai a gaiff eu hystyried ymhellach fel y nodir yn yr NAPCP leihau allyriadau yn unol ag ERCs 2030 yn achos pob llygrydd yn y senario uchaf a phob llygrydd heblaw PM_{2.5} ac NH₃ yn y senario isaf.

Yn yr NAPCP, mae pob amcanestyniad ac amcangyfrif NH₃ wedi'i seilio ar yr amcanestyniadau a gyhoeddir ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn. Gan hynny, does dim ystyriaeth wedi'i rhoi i effaith yr addasiad arfaethedig er mwyn cymryd i ystyriaeth welliannau yn y fethodoleg ar gyfer cyfrifo allyriadau o ddeunydd treulid nad yw'n dail sydd wedi'i chyflwyno i'r CLRTAP i graffu arno. Pe bai'r addasiad hwn yn cael ei gymhwyso at allyriadau 2030, byddai'n lleihau ymhellach y risg y byddai'r Deyrnas Unedig yn torri ERC 2030 ar gyfer NH₃.

Mae'r Llywodraeth wedi ystyried polisïau a mesurau ychwanegol mewn perthynas ag amaethyddiaeth a allai helpu ymhellach i leihau ymhellach y risg y bydd y Deyrnas Unedig yn torri ERC 2030 ar gyfer NH₃. Mae hyn yn cynnwys ei gwneud yn ofynnol i'r holl wrea gael ei ddiogelu neu ei drin ag atalyddion wrea. Nid yw'r mesurau hyn wedi'u dewis i'w hystyried ymhellach ar hyn o bryd.

O ran lleihau'r allyriadau su'n dod o wrteithiau wrea solet, amlinellodd y Llywodraeth ei dull gweithredu yn ei hymateb i'r ymgynghoriad a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022. Os na fydd y dull a amlinellwyd yn sicrhau gostyngiadau digonol mewn allyriadau amonia ac os na fydd cyflenwad a phrisiau byd-eang gwrteithiau'n fwy sefydlog, bydd y Llywodraeth yn ymgynghori ar reoliadau drafft sy'n debygol o'i gwneud yn ofynnol i bob gwrtaith wrea gael ei ddiogelu neu ei drin ag atalyddion wrea o 2025/26 ymlaen.

Mae'r Llywodraeth hefyd wedi ystyried polisïau a mesurau ychwanegol mewn perthynas â chyfyngiadau ar losgi domestig. Ni fydd y rhain yn cael eu hystyried ymhellach ar hyn o bryd. Mae'n ymddangos bod gan y pecynnau o bolisiau a mesurau a ddewiswyd i'w hystyried ymhellach ddigon o botensial i leihau allyriadau yn unol ag ERCs 2030. At hynny, mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod rhai aelwydydd – yn enwedig mewn ardaloedd gwledig – yn dibynnu ar losgi tanwydd solet fel eu prif ffynhonnell ar gyfer gwres, dŵr poeth a choginio. Mae hyn yn arbennig o berthnasol yng ngoleuni'r ffocws presennol ar ddiogelwch ynni, a'r cynnydd byd-eang ym mhrisiau ynni.

1.4 Ffactorau ychwanegol NAPCP y Deyrnas Unedig

Polisiau ychwanegol na roddwyd cyfrif amdanynt – sy'n debygol o sicrhau gostyngiad ychwanegol

Mae nifer o bolisiau ychwanegol ar y gweill, yn enwedig ar gyfer diwydiant, sy'n debygol o sicrhau gostyngiad ychwanegol. Am fod y broses ar gyfer pennu'r Technegau Gorau sydd ar Gael (BATs) o dan arweiniad y rheoleiddwyr, does dim modd i'r NAPCP nodi ymlaen llaw y technolegau penodol y bydd y BATs yn eu darparu erbyn 2030 ac felly rydym wedi amcangyfrif y gostyngiad drwy ddefnyddio data hanesyddol. At hyn, mae polisiau pellach yn cael eu datblygu ar gyfer ffynonellau diwydiannol llai (e.e. gweithfeydd hylosgi canolig) nad ydym wedi llwyddo i'w mesur ar hyn o bryd i'w cynnwys yn yr NAPCP drafft ond a fydd yn darparu gostyngiad ychwanegol.

Addasiad amonia (NH₃) - i gymryd gwelliannau yn y fethodoleg i ystyriaeth

Yn yr NAPCP, mae pob amcanestyniad ac amcangyfrif NH₃ wedi'i seilio ar yr amcanestyniadau a gyhoeddir ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn. Ond, fel y darperir yn [rheoliad 4](#) o'r NECR, mae'r Deyrnas Unedig wedi paratoi rhestr ddiwygiedig mewn perthynas ag allyriadau NH₃. Sail yr addasiad hwnnw yw y dylid ystyried gwyddoniaeth newydd a ffynonellau newydd o allyriadau amonia, yn enwedig taenu deunydd treuliad nad yw'n dail, a oedd heb ei gynnwys mewn adroddiadau ar y rhestr pan gytunwyd ar yr ERCs ac sydd wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'r Deyrnas Unedig wedi cyflwyno'i rhestr ddiwygiedig ar gyfer gwaith craffu annibynnol ac arbenigol gan arbenigwyr UNECE a fydd yn adolygu'r rhestr erbyn mis Medi 2022.

Byddai cymhwyso'r addasiad yn rhestr 2020 yn creu gostyngiad o 12.75kt mewn allyriadau NH₃ yn 2020. Ar sail y cyfrannau o ddeunydd treuliad nad yw'n dail yn NAEI 2020, amcangyfrifwn fod rhyw 21kt o'n hallyriadau amonia sydd wedi'u hamcanestyn yn 2030 yn ymwneud â'r ffynhonnell hon. Pe bai'r addasiad hwn yn cael ei gymhwyso at ein hamcanestyniadau presennol ar gyfer 2030, fe fydden ni felly yn disgwyl gostyngiad o ryw 21kt yn ein cyfanswm cydymffurfio yn 2030, a fyddai felly'n lleihau'r risg y byddai'r Deyrnas Unedig yn torri ERC 2030 ar gyfer NH₃ yn y senarios isaf ac uchaf. Mae manylion yr addasiad i'w gweld yn y bennod 'Adjustments' yn yr [Informative Inventory Report](#). Disgwylir cael barn UNECE erbyn mis Medi 2022.

Ansicrwydd yn yr Amcanestyniadau o Allyriadau

Mae amcanestyniadau o allyriadau yn cael eu cyfrifo yn unol â chanllawiau rhyngwladol, a hynny mor gywir â phosibl. Er dilyn yr arferion gorau a mynd ati i ddadansoddi mor drylwyr ag y bo modd, bydd yr amcanestyniadau bob amser yn cynnwys rhywfaint o ansicrwydd, ac felly dylid eu dehongli gyda hyn mewn golwg. Mae'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag amcanestyniadau allyriadau yn codi o ddau ffactor:

i) yr ansicrwydd o fewn y flwyddyn sylfaen h.y. y man cychwyn (sef y flwyddyn fwyaf cyfredol yn y rhestr hanesyddol fel arfer). Mae ansicrwydd ym mhob amcangyfrif o allyriadau yn deillio o ansicrwydd yn y gweithgareddau sylfaenol ac yn y ffactorau allyrru a

ddefnyddir i lunio'r ffigurau. Gan fod y ffynonellau allweddol ar gyfer pob llygrydd yn wahanol, mae'r ansicrwydd yn amrywio yn unol â hynny. Ceir rhagor o drafod ar yr ansicrwydd yn yr NAEI yn yr Adroddiad Hysbysol ar y Rhestr, sydd ar gael yn: [UK Informative Inventory Report](#).

ii) "sbardunau" newid yn y dyfodol h.y. y data rhagamcanol a ddefnyddir i gynyddu graddfa'r data ynglŷn ag allyriadau'r flwyddyn sylfaen. O ganlyniad, mae amcanestyniadau o allyriadau bob amser yn fwy ansicr nag amcangyfrifon o'r allyriadau hanesyddol ac mae'r ansicrwydd hwnnw'n cynyddu wrth ichi fynd ymhellach i'r dyfodol. At hynny, ar hyn o bryd mae nifer o ffactorau economaidd a geo-wleidyddol sy'n gwneud amcangyfrifon yn arbennig o anodd ac yn ansicr iawn ar hyn o bryd:

- Mae economi'r Deyrnas Unedig yn gwella o effeithiau pandemig COVID-19, ac felly nid yw'r dangosyddion economaidd sydd ar gael o'r blynyddoedd diwethaf o reidrwydd yn ddangosyddion da o ran twf yn y dyfodol. Cafwyd cryn newid ymddygiad yn ystod y pandemig, ac nid yw'n glir a fydd rhai o'r newidiadau hyn yn arwain at newid hirdymor. Er enghraifft, er bod llawer o bobl yn dychwelyd i weithio mewn swyddfeydd, mae'n debygol iawn y bydd cynnydd parhaol mewn gweithio gartref o'i gymharu â'r lefelau cyn y pandemig. Disgwylir i hyn arwain at lai o allyriadau trafndiaeth oherwydd llai o gymudo, ond o bosibl mwy o allyriadau o wresogi cartrefi. Nid yw'n glir eto i ba raddau y ceir newid hirdymor ac effaith ar allyriadau.
- Mae ymosodiad diweddar Rwsia ar Wcráin wedi cael effaith arwyddocaol ar argaeledd a phrisiau tanwydd a gwrtaith yn fyd-eang. Disgwylir i hyn sbarduno newid sylweddol mewn patrymau defnydd cenedlaethol ar draws llawer o sectorau yng ngwledydd Ewrop, gan gynnwys y Deyrnas Unedig. Gan fod hon yn effaith newydd sy'n dechrau dod i'r amlwg, mae'n anodd amcangyfrif sut y gallai effeithio ar y defnydd o danwydd a gwrtaith yn y dyfodol, a pha sgil-ffeithiau y gallai hyn eu cael.
- Mae gan y Deyrnas Unedig darged cyfreithiol rwymol i gyrraedd allyriadau sero-net erbyn 2050. Mae ymyriadau polisi y disgwylir iddynt greu effaith fawr ar allyriadau nwyon tŷ gwydr hefyd yn dylanwadu ar allyriadau llygryddion ansawdd aer. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys rhoi terfyn ar werthu ceir a faniau gyda pheiriannau petrol a disel, mwy o ddefnydd ar bympiau gwres mewn systemau gwresogi preswyl, a thwf hydrogen fel ffynhonnell tanwydd ar draws llawer o sectorau.

Effaith Sero Net

Gan fod llawer o'r un ffynonellau yn cyfrannu allyriadau at newid yn yr hinsawdd ac at lygredd yn yr aer, mae datgarboneiddio economi'r Deyrnas Unedig yn cynnig cyfleoedd mawr i leihau llygredd aer yn sylweddol gan wella iechyd pobl a lleihau effaith rhai llygryddion aer ar ecosystemau. Mae hyn yn cael ei yrru'n bennaf drwy leihau cerbydau petrol a disel tuag at ddewisiadau amgen gwyrdd, yn ogystal â'r newid parhaus i ffwrdd o danwyddau ffosil wrth gynhyrchu gwres a phŵer. Serch hynny, fe allai rhai dewisiadau technolegol arwain at effeithiau negyddol ar ansawdd aer. Mae Defra yn gweithio gydag adrannau eraill o'r llywodraeth i sicrhau bod manteision gweithredu ar y cyd i gyflawni Sero Net a gwell ansawdd aer yn cael eu defnyddio i'r eithaf a bod unrhyw effeithiau negyddol posibl yn cael eu rheoli'n ofalus.

Mae'r amcangyfrif o effaith datgarboneiddio economi'r Deyrnas Unedig wedi'i seilio ar lwybrau posibl i gyrraedd Sero Net yn 2050 fel y nodir yn y Strategaeth Sero Net (net-zero-strategy-beis.pdf (publishing.service.gov.uk)). Er hynny, mae yna ansicrwydd ynglŷn â'r amcangyfrifon a wnaed. Mae prif ffynonellau'r ansicrwydd yn cynnwys: ansicrwydd ynglŷn â data a thybiaethau (ffactorau sy'n ymwneud â gweithgareddau a thueddiadau allyriadau llygredd aer); newidiadau yn yr amgylchedd ehangach; a digwyddiadau neu risgiau annisgwyl a allai ddylanwadu ar y canlyniad. Mae'r ansicrwydd ar ei uchaf yn achos deunydd gronynnol (PM).

Ymchwilio a Datblygu

Er mwyn lleihau ansicrwydd, rydym yn buddsoddi mewn rhaglen i wella'r Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol ac mae gennyn ni nifer o brosiectau ymchwil ar y gweill. Bydd y rhain yn diweddarau ac yn gwella'n ffactorau allyriadau ac yn lleihau'r ansicrwydd. Mae yna ffocws ar hyn o bryd ar hylosgi domestig lle rydym yn buddsoddi dros £1M mewn sawl prosiect i gynrychioli'r allyriadau o hylosgi domestig yn well o bob rhan o'r Deyrnas Unedig, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Yn ychwanegol, rydym wedi ymrwymo i fuddsoddi dros £2M i archwilio technolegau lleihau newydd ac arloesol gyda chefnogaeth Innovate UK a'r diwydiant ehangach, gyda'r nod o leihau allyriadau PM_{2.5} o ganlyniad i hylosgi preswyl ac allyriadau amonia o arferion ffermio, gan gynnwys treuliad anaerobig.

Rydym hefyd wedi comisiynu ymchwil sydd wedi'i hanelu at ddeall yn well dechnegau mesur, priodweddau mater a pharamedrau rheoli allyriadau nad ydynt yn deillio o gerbydau ffyrdd.

2. Nod yr ymgynghoriad

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn eich barn ar yr NAPCP drafft diwygiedig. Byddwn yn defnyddio'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i helpu i lywio'r NAPCP diwygiedig a fydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Medi 2022.

Mae'r ymgynghoriad yn nodi 14 o gwestiynau: cwestiynau cyffredinol (1-5), cwestiynau sy'n ymwneud â pholisi (6-11) ac yna cwestiynau technegol (12-14). Mae'r cwestiynau polisi yn ymwneud â chydbwysedd y mesurau ar draws y 7 pecyn a gaiff eu hystyried ymhellach yn yr NAPCP, ac mae cwestiwn ychwanegol yn ymwneud â datblygu mesurau pellach y gallai Llywodraeth y Deyrnas Unedig neu'r Gweinyddiaethau Datganoledig eu hymgorffori yn y dyfodol i helpu i gyflawni ERC y Deyrnas Unedig yn y ffordd fwyaf effeithiol. Mae'r cwestiynau technegol yn ymwneud â graddfa'r gostyngiadau posibl mewn allyriadau ar gyfer pob un o'r 7 pecyn yn ogystal â'r cyfle i roi adborth ar ansicrwydd ac effeithiolrwydd yr NAPCP.

3. Gwybodaeth gyffredinol a sut i ymateb

Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dechrau ar 25 Gorffennaf ac yn dod i ben ar 4 Medi 2022. Rydym yn eich annog yn gryf i ymateb drwy arolwg ar-lein ar Citizen Space, sef offeryn ymgynghori ar-lein. Mae ymgynghoriadau'n denu lefel uchel o ddiddordeb ar draws llawer o sectorau ac mae defnyddio'r offeryn ar-lein yn ein helpu i ddadansoddi ymatebion, gan ganiatáu ystyriaeth fwy effeithlon ac effeithiol ar y materion. Er hynny, cewch anfon ymatebion drwy'r ebost neu drwy'r post. Yn eich ymateb, nodwch:

- Eich enw
- Eich cyfeiriad ebost
- Eich sefydliad (os yw'n gymwys)
- P'un a hoffech i'ch ymateb fod yn gyfrinachol (os hoffech, rhowch eich rhesymau)

Dylai ymholiadau ac ymatebion gael eu cyfeirio:

- Drwy'r ebost at AQconsultations@defra.gov.uk gan gynnwys a oes arnoch chi angen copi caled o'r ymgynghoriad.
- Mewn ysgrifen at The Consultation Coordinator, Defra, 2nd Floor, Foss House, Kings Pool, 1-2 Peasholme Green, York, YO1 7PX.

Wrth bwysu a mesur ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, bydd y Llywodraeth yn rhoi mwy o bwyslais ar ymatebion sy'n seiliedig ar ddadleuon a thystiolaeth, yn hytrach na mynegiant syml o gefnogaeth neu wrthwynebiad.

Gwybodaeth am gyfrinachedd a diogelu data

Bydd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Llywodraeth yn: www.gov.uk/defra. Bydd atodiad i'r crynodeb o'r ymgynghoriad yn rhestru'r holl sefydliadau a ymatebodd ond ni fydd yn cynnwys enwau personol, cyfeiriadau na manylion cyswllt eraill.

Caiff Defra gyhoeddi cynnwys eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn i drefnu ei fod ar gael i'r cyhoedd heb eich enw personol a'ch manylion cyswllt preifat (e.e., cyfeiriad cartref, cyfeiriad ebost, etc).

Os byddwch yn clicio ar 'Hoffwn' mewn ymateb i'r cwestiwn yn gofyn a hoffech i unrhyw beth yn eich ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, gofynnir ichi nodi'n glir pa wybodaeth yr hoffech ei chadw'n gyfrinachol ac egluro'ch rhesymau dros gyfrinachedd. Y rheswm am hyn yw y gallai gwybodaeth mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn fod yn agored i'w rhyddhau i'r cyhoedd neu bartïon eraill yn unol â'r gyfraith ar weld gwybodaeth (sef yn bennaf Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (EIRs) 2004), Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (Deddf 2000) a Deddf Diogelu Data 2018 (Deddf 2018)). Mae gennyn ni rwymedigaethau, yn bennaf o dan yr EIRs, Deddf 2000 a Deddf 2018, i ddatgelu gwybodaeth i dderbynwyr penodol neu i'r cyhoedd mewn rhai amgylchiadau. O gofio hyn, byddai'ch esboniad o'ch rhesymau dros ofyn am gyfrinachedd ar gyfer y cyfan neu ran o'ch ymateb yn ein helpu i gydbwysu'r rhwymedigaethau hyn ynglŷn â datgelu o'i gymharu

ag unrhyw rwymedigaeth ynglŷn â chyfrinachedd. Os cawn gais am yr wybodaeth rydych chi wedi'i rhoi yn eich ymateb i'r ymgynghoriad, byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'ch rhesymau dros ofyn am gyfrinachedd i'ch ymateb, ond allwn ni ddim gwarantu bod modd cadw cyfrinachedd o dan bob amgylchiad.

Os cliciwch ar 'Na hoffwn' mewn ymateb i'r cwestiwn yn gofyn a hoffech i unrhyw beth yn eich ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, byddwn yn gallu rhyddhau cynnwys eich ymateb i'r cyhoedd, ond fyddwn ni ddim yn trefnu bod eich enw personol a'ch manylion cyswllt preifat ar gael i'r cyhoedd.

Gall fod adegau pan fydd Defra yn rhannu'r wybodaeth a roddwch mewn ymateb i'r ymgynghoriad, gan gynnwys unrhyw ddata personol gyda dadansoddwyr allanol, a hynny er mwyn dadansoddi ymatebion i'r ymgynghoriad a darparu adroddiad ar y crynodeb o'r ymatebion yn unig.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal yn unol a dogfen Swyddfa'r Cabinet "Consultation Principles" sydd ar gael yma:
<https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance>.

Mae'n hysbysiad preifatrwydd diweddaraf wedi'i uwchlwytho fel dogfen gysylltiedig ochr yn ochr â'n dogfen ymgynghori.

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwynion am y broses ymgynghori, a fydddech cystal â'u cyfeirio at:

National Air Pollution Control Programme
Consultation Coordinator, Defra
2nd Floor, Foss House, Kings Pool,
1-2 Peasholme Green, York, YO1 7PX
Neu drwy'r ebost: consultation.coordinator@defra.gov.uk

4. Cwestiynau ymgynghori

4.1 Cwestiynau cyffredinol

1. Hoffech chi i'ch ymateb fod yn gyfrinachol?

- Hoffwn
- Na hoffwn

Os ydych chi wedi ateb 'Hoffwn' i'r cwestiwn hwn, rhowch eich rheswm.

2. Beth yw'ch enw chi?

3. Beth yw'ch cyfeiriad ebost?

4. Beth yw'ch lleoliad?

- Lloegr
- Yr Alban
- Cymru
- Gogledd Iwerddon
- Arall – rhowch y manylion

5. Pa un o'r rhain yw'r disgrifiad gorau ohonoch chi?

- Academydd
- Unigolyn
- Corff diwydiant
- Awdurdod lleol
- NGO
- Ymgynghoriaeth
- Arall – rhowch y manylion

4.2 Cwestiynau polisi

6. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â chydbwysedd y mesurau ar draws y 7 pecyn yn yr NAPCP fel y'u nodir yn adran 2.6.1 o'r ddogfen NAPCP, ar gyfer lleihau Deunydd Gronynnol mân ($PM_{2.5}$)?

- Cytuno
- Anghytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Wn i ddim

7. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â chydbwysedd y mesurau ar draws y 7 pecyn yn yr NAPCP fel y'u nodir yn adran 2.6.1 o'r ddogfen NAPCP, ar gyfer lleihau Amonia (NH_3)?

- Cytuno
- Anghytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Wn i ddim

8. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â chydbwysedd y mesurau ar draws y 7 pecyn yn yr NAPCP fel y'u nodir yn adran 2.6.1 o'r ddogfen NAPCP, ar gyfer lleihau Ocsidau Nitrogen (NOx)?

- Cytuno
- Anghytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Wn i ddim

9. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â chydbwysedd y mesurau ar draws y 7 pecyn yn yr NAPCP fel y'u nodir yn adran 2.6.1 o'r ddogfen NAPCP, ar gyfer lleihau Cyfansoddion Organig Anweddol nac ydynt yn Fethan (NMVOCs)?

- Cytuno
- Anghytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Wn i ddim

10. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â chydbwysedd y mesurau ar draws y 7 pecyn yn yr NAPCP fel y'u nodir yn adran 2.6.1 o'r ddogfen NAPCP, ar gyfer lleihau Ocsidau Sylffwr (SOx)?

- Cytuno
- Anghytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Wn i ddim

11. Ar ôl i'r NAPCP hwn gael ei gyhoeddi, bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn parhau i ddatblygu'n mesurau polisi a'n dulliau gweithredu. Rhowch wybod inni am unrhyw fesurau pellach rydych chi'n credu y dylem eu hystyried i helpu i gyflawni ERCs y Deyrnas Unedig yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Dylai cynigion fod yn seiliedig ar dystiolaeth. Dewiswch y wlad o'r rhestr isod y mae'ch mesur(au) yn ymwneud â hi a defnyddiwch y blwch testun a'r botwm uwchlwytho ffeil i ddisgrifio'r mesur arfaethedig a'r dystiolaeth ategol.

- Lloegr
- Gogledd Iwerddon
- Yr Alban
- Cymru
- Ledled y Deyrnas Unedig

4.3 Cwestiynau technegol

12. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â graddfa'r gostyngiadau posibl mewn allyriadau ar gyfer pob un o'r 7 pecyn o bolisiâu a mesurau fel y'u nodir yn nhabl 2.6.1 o'r NAPCP drafft?

- Cytuno
- Anghytuno (rhy isel)
- Anghytuno (rhy uchel)
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Wn i ddim

Os ydych chi'n ateb 'anghytuno' (h.y. eich bod yn teimlo bod y raddfa naill ai'n rhy isel neu'n uchel) rhowch eich barn a gwybodaeth i ategu'ch barn

13. Rydyn ni wedi amlinellu'r ansicrwydd ynglŷn ag amcanestyniadau yn 'ffactorau ychwanegol NAPCP y Deyrnas Unedig' uchod. Rhowch unrhyw wybodaeth ychwanegol am newidiadau posibl dros yr 8 mlynedd nesaf a allai effeithio ar amcanestyniadau ynglŷn ag allyriadau. Dewiswch hefyd y categori y mae eich gwybodaeth yn ymwneud ag ef.

- Economaidd
- Amgylcheddol
- Polisi
- Technegol/Gwyddonol
- Arall (rhowch y manylion)

14. Wrth ddiwygio'r NAPCP, mae'r Deyrnas Unedig wedi dilyn y fformat a nodwyd ym mhenderfyniad gweithredu'r UE 2018/1522. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y gellid gwella fformat yr NAPCP?

- Cytuno
- Anghytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Wn i ddim

Os ydych chi'n ateb 'cytuno' a'ch bod yn credu y gellid gwella'r fformat, rhowch eich barn ar sut y gellir gwella'r NAPCP. Gall hyn fod naill ai'n gyflwyniadol (h.y. y fformat neu'r cynnwys sydd ei angen), neu effeithiolrwydd/defnyddioldeb y ddogfen. Os ydych chi'n anghytuno ac nad ydych chi'n credu bod modd gwella fformat yr NAPCP, rhowch eich barn ar gynnwys a/neu effeithiolrwydd/defnyddioldeb y fformat presennol.

Ar ddiwedd yr ymgynghoriad

Pan ddaw'r ymgynghoriad hwn i ben, byddwn yn cadw copïau yn ddiogel. Gall aelodau o'r cyhoedd ofyn am gopi o'r ymatebion o dan ddeddfwriaeth rhyddid gwybodaeth.

Os nad ydych am i'ch ymateb – gan gynnwys eich enw, eich manylion cyswllt ac unrhyw wybodaeth bersonol arall – fod ar gael yn gyhoeddus, nodwch hynny'n glir yn ysgrifenedig pan fyddwch yn anfon eich ymateb i'r ymgynghoriad. Sylwch: os bydd eich cyfrifiadur yn cynnwys ymwadiad cyfrinachedd yn awtomatig, ni fyddwn yn ystyried hwnnw yn gais am gyfrinachedd.

Esboniwch pam rydych am gadw'r manylion yn gyfrinachol. Byddwn yn ystyried eich rhesymau os bydd unrhyw un yn gofyn am yr wybodaeth hon o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth. Ond, yn ôl y gyfraith, ni allwn addo y gallwn gadw'r manylion hynny'n gyfrinachol bob amser.

Byddwn yn crynhoi pob ymateb ac yn rhoi'r crynodeb hwn ar ein gwefan yn www.gov.uk/defra. Bydd y crynodeb hwn yn cynnwys rhestr o enwau sefydliadau sydd wedi ymateb, ond ni fydd yn cynnwys enwau personol, cyfeiriadau na manylion cyswllt eraill.

Rhowch 24 awr o rybudd i ni os hoffech weld yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'r crynodebau. Codir tâl am lungopïo a phostio.

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwynion am y broses ymgynghori, a fydddech cystal â'u cyfeirio at: Defra Consultation Co-ordinator, Area 1C Nobel House 17 Smith Square London SW1P 3JR neu drwy'r ebost: consultation.coordinator@defra.gov.uk

Consultation Coordinator, Defra, 2nd Floor, Foss House, Kings Pool, 1-2 Peasholme Green, York, YO1 7PX.